Status: *This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 1769 (Cy.196)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Cymwysterau a Chofrestru Prifathrawon (Cymru) (Diwygio) 2011

Gwnaed - - - -	*15 Gorffennaf 2011*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*19 Gorffennaf 2011*
Yn dod i rym - -	*1 Medi 2011*

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 135 a 145(1) a (2) o Ddeddf Addysg 2002(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cymwysterau a Chofrestru Prifathrawon (Cymru) (Diwygio) 2011 a deuant i rym ar 1 Medi 2011.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau Cymwysterau a Chofrestru Prifathrawon (Cymru) 2005

2.—(1) Mae Rheoliadau Cymwysterau a Chofrestru Prifathrawon (Cymru) 2005(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3(2) rhodder “gyrraedd y cyfryw safonau y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn eu cymeradwyo” yn lle'r geiriau “gwblhau unrhyw gwrs hyfforddiant y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei gymeradwyo”.

(**1**) 2002 p.32; diwygiwyd adran 135 gan Atodlen 2 i Orchymyn Awdurdodau Addysg Lleol ac Awdurdodau Gwasanaethau Plant (Integreiddio Swyddogaethau) 2010 (O.S. 2010/1158) a diwygiwyd adran 145 gan Atodlen 14 i Ddeddf Addysg 2005 (p.18).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adrannau 135 a 145 o Ddeddf Addysg 2002 i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraffau 30(1) a 30(2)(c) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) O.S. 2005/1227 (Cy.85) fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Addysg (Diwygiadau i Reoliadau ynghylch Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/2811 (Cy.238)) a Gorchymyn Awdurdodau Addysg Lleol ac Awdurdodau Gwasanaethau Plant (Integreiddio Swyddogaethau) (Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2010 (O.S 2010/1142 (Cy.101)).